# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

**RHAN 2**

COMISIYNYDD Y GYMRAEG

*Gweithio gydag ombwdsmyn eraill, comisiynwyr eraill etc*

## 20 Gweithio ar y cyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd y gallai pwnc ymchwiliad penodol i orfodi safonau ("ymchwiliad y Comisiynydd") hefyd fod yn destun ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

(2) Os yw'r Comisiynydd o'r farn fod hynny'n briodol, rhaid iddo—

(a) hysbysu'r Ombwdsmon ynglŷn ag ymchwiliad y Comisiynydd (gan gynnwys cynigion y Comisiynydd ar gyfer ymgymryd â'r ymchwiliad), a

(b) ymgynghori â'r Ombwdsmon mewn perthynas ag ymchwiliad y Comisiynydd.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn ymgynghori â'r Ombwdsmon mewn perthynas ag ymchwiliad y Comisiynydd, caiff y Comisiynydd a'r Ombwdsmon wneud unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r canlynol—

(a) cydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â'r ymchwiliad;

(b) cynnal ymchwiliad ar y cyd;

(c) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'r ymchwiliad.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn—

(a) darparu i'r adran hon fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson arall fel y mae'n gymwys mewn perthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a

(b) gwneud darpariaeth arall sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â, at ddibenion, neu o ganlyniad i ddarpariaeth a wneir o dan baragraff (a).

(5) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (4) yn cynnwys y canlynol, ond nid yw wedi ei chyfyngu i hynny—

(a) darpariaeth yn galluogi'r person arall i weithio, neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r person arall weithio, ar y cyd â'r Comisiynydd; a

(b) diwygiadau i unrhyw ddeddfiad.

(6) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd ac ag unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn nhyb Gweinidogion Cymru.

(7) Yn yr adran hon—

mae "ymchwiliad" ("*investigation*"), mewn perthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn cynnwys archwiliad ac ymholiad, ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli'n unol â hynny;

ystyr "ymchwiliad i orfodi safonau" ("*standards enforcement investigation*") yw ymchwiliad y mae gan y Comisiynydd yr hawl i ymgymryd ag ef, neu ymchwiliad y mae'n ymgymryd ag ef, o dan adran 71.

## 21 Gweithio'n gyfochrog ag ombwdsmyn, comisiynwyr etc

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd fod pwnc ymchwiliad i orfodi safonau ("ymchwiliad y Comisiynydd") yn bwnc sy'n ymwneud â mater a allai fod yn destun ymchwiliad gan ombwdsmon penodol, neu sy'n codi mater felly ("y mater cysylltiedig").

(2) Os yw'r Comisiynydd o'r farn bod hynny'n briodol, rhaid iddo hysbysu'r ombwdsmon ynglŷn â'r mater cysylltiedig.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad y Comisiynydd, rhaid i'r Comisiynydd, os yw o'r farn bod hynny'n briodol—

(a) hysbysu'r ombwdsmon ynglŷn â'r ymchwiliad (gan gynnwys ynglŷn â chynigion y Comisiynydd ar gyfer ymgymryd â'r ymchwiliad), a

(b) ymgynghori â'r ombwdsmon mewn perthynas â'r ymchwiliad.

(4) Os yw'r Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad y Comisiynydd, a'r ombwdsmon yn ymchwilio i'r mater cysylltiedig, cânt wneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) cydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau;

(b) cynnal ymchwiliad ar y cyd;

(c) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau neu â'u hymchwiliad ar y cyd.

(5) Os na fydd y Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad y Comisiynydd, rhaid i'r Comisiynydd, os yw o'r farn bod hynny'n briodol—

(a) rhoi i'r person sydd am ddwyn yr achos wybodaeth ynglŷn â sut i gyfeirio'r mater cysylltiedig at yr ombwdsmon, a

(b) rhoi'r wybodaeth honno i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr achos.

(6) Yn yr adran hon—

ystyr "ombwdsmon" ("*ombudsman*") yw—

(a) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,

(b) Comisiynydd Plant Cymru,

(c) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a

(d) y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;

mae "ymchwiliad" ("*investigation*"), mewn perthynas ag ombwdsmon, yn cynnwys archwiliad ac ymholiad, ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli'n unol â hynny;

ystyr "ymchwiliad i orfodi safonau" ("*standards enforcement investigation*") yw ymchwiliad y mae gan y Comisiynydd yr hawl i'w gynnal, neu ymchwiliad y mae'n ei gynnal, o dan adran 71.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r diffiniad o "ombwdsmon" yn is-adran (6)—

(a) drwy ychwanegu person;

(b) drwy hepgor person;

(c) drwy newid disgrifiad o berson.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth arall sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â, at ddibenion, neu o ganlyniad i ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (7), gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig—

(a) i ddarpariaeth sy'n galluogi'r person arall i weithio gyda'r Comisiynydd, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny, a

(b) i ddiwygiadau i unrhyw ddeddfiad.

(9) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (7), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person dan sylw ac ag unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn nhyb Gweinidogion Cymru.

(10) Mae Atodlen 3 yn cynnwys diwygiadau ynghylch Comisiynwyr ac Ombwdsmyn eraill yn gweithio ar y cyd ac yn gweithio'n gyfochrog â Chomisiynydd y Gymraeg.